*Archwilio Ein Byd*

# Arwyddion a Symbolau




## Cwestiynau Allweddol

## Archwilio Ein Byd

# Arwyddion a Symbolau

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon

Bear Lands Publishing

## Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau, Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrando ar storïau eu ffrindiau ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar **hwb.wales.gov.uk/Adnoddau** a **st-marys-centre.org.uk**

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

## Teitlau'r gyfres *Archwilio Ein Byd* yw:



*Plant 3 – 5 oed*
Dathliadau
Fi fy hun ac Eraill
Adegau a Thymhorau

*Plant 5 – 7 oed*
Teithiau
Pobl Arbennig
Arwyddion a Symbolau




Sut mae Aled a Siân yn dod o hyd i'r castell?




Beth yw'r arwyddion sy'n dweud pwy sy'n gofalu am y castell?




Beth yw'r arwyddion sy'n dweud wrthych chi am beryglon ar y ffordd?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud ble gallwch chi fwyta'ch picnic?



Beth ydych chi'n feddwl mae Aled a Siân yn ei ddweud wrth eu ffrindiau am eu hymweliad â'r castell?




Sut mae Peter a Mary'n dod o hyd i'r eglwys?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud pwy sy'n gofalu am yr eglwys?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud bod Cristnogion yn cael eu bedyddio mewn dŵr?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud bod Cristnogion yn dod ynghyd i ddathlu'r cymun?




Sut mae Nathan a Rachel yn dod o hyd i'r synagog?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud pwy sy'n gofalu am y synagog?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud bod Iddewon yn cofio am bobl yn croesi'r Môr Coch?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud bod Iddewon yn dod ynghyd i rannu pryd bwyd y Pasg Iddewig?




Sut mae Ahmed a Salma'n dod o hyd i'r mosg?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud pwy sy'n gofalu am y mosg?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud bod Mwslimiaid yn ymolchi cyn gweddïo?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud bod Mwslimiaid yn dod ynghyd i ddathlu Eid?




Sut mae Rajeev a Meena yn dod o hyd i'r deml?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud pwy sy'n gofalu am y deml?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud bod Hindŵiaid yn offrymu dŵr ar yr allor?



Beth yw'r arwyddion sy'n dweud bod Hindŵiaid yn dod ynghyd i ddathlu puja?



Ydych chi'n gallu cofio enwau'r llefydd wnaeth y plant ymweld â nhw?




Ydych chi'n gallu cofio'r arwyddion oedd yn y llefydd wnaeth y plant ymweld â nhw?



Pam ydych chi'n meddwl bod arwyddion yn bwysig?



Mae Aled a Siân yn archwilio arwyddion a symbolau ac maen nhw'n ymweld â chastell hynafol. Pan fyddan nhw'n dod yn ôl, mae Aled a Siân yn dweud yr hanes am eu diwrnod allan wrth eu ffrindiau, ac maen nhw'n gwrando ar storïau eu ffrindiau hefyd. Wrth i'r storïau ddatblygu, mae Aled a Siân yn dechrau gweld sut mae crefyddau'r byd yn arddangos eu harwyddion a'u symbolau o'u cwmpas.

Bear Lands Publishing